ATODLEN 11

Gwybodaeth i'r cyhoedd lle mae gormodiant uwchlaw'r trothwyon rhybuddio neu wybodaeth

# RHAN 1

## Trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid

**1.** Mewn achosion lle mae gormodiant uwchlaw'r trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid neu sylffwr deuocsid, dylai'r wybodaeth sydd i'w rhoi i'r cyhoedd gynnwys o leiaf—

(a) dyddiad, awr a lleoliad y digwyddiad a'r rhesymau am y digwyddiad, lle mae hynny'n wybyddus;

(b) unrhyw ragolygon am—

(i) newidiadau mewn crynodiad (gwelliant, sefydlogiad neu ddirywiad), ynghyd â'r rhesymau am y newidiadau hynny,

(ii) yr ardal daearyddol dan sylw, a

(iii) hyd y digwyddiad;

(c) y math o boblogaeth sydd â'r posibilrwydd o fod yn sensitif i'r digwyddiad; a'r

(ch) rhagofalon sydd i'w cymryd gan y boblogaeth sensitif dan sylw.